Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

7 Mai, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Ar ran staff cyfan yr ysgol, mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd, fel aelodau o gymuned yr ysgol, yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r isod:

Dim newid i sefyllfa'r ysgolion ar 1 Mehefin

Heddiw, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams ni fydd y sefyllfa i ysgolion Cymru yn newid ar y cyntaf o Fehefin. Mewn neges fideo ar ei chyfrif Twitter, dywedodd Kirsty Williams:

" Fel y gwyddoch, mae llawer o ddyfalu ynglŷn â'r hyn a allai gael ei gyhoeddi o bosib ynghylch ysgolion yn Lloegr y penwythnos hwn.

"Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, byddwch bob amser yn clywed gennyf yn uniongyrchol am y penderfyniadau a wnawn yng Nghymru ar gyfer ein disgyblion, ein rhieni a staff yr ysgol.

"Ni fydd y sefyllfa i ysgolion yng Nghymru yn newid ar 1 Mehefin. Rwy'n eich sicrhau y byddwn yn rhoi digon o amser i bawb gynllunio cyn i'r cam nesaf ddechrau.

"Bydd unrhyw benderfyniad i gynyddu gweithrediad ysgolion yn cael ei gyfathrebu ymhell ymlaen llaw. Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi yn y gwaith paratoi hwn.

"Yn y cyfamser, dylai gweithwyr allweddol a'r rhai sydd angen defnyddio ysgolion neu ganolfannau addysg ar gyfer eu plant barhau i wneud hynny.

"Byddwn yn parhau i gael ein harwain gan y cyngor gwyddonol diweddaraf a byddwn ond yn ystyried cael mwy o ddisgyblion a staff mewn ysgolion pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Wrth gwrs, bydd angen i ni sicrhau y gellir cadw at ofynion cadw pellter cymdeithasol "

Am wybodaeth bellach parthed cyhoeddiad heddiw, gweler y datganiad i'r wasg isod a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth.

https://llyw.cymru/dim-newid-i-sefyllfar-ysgolion-ar-1-mehefin-meddair-gweinidog-addysg

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Cefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref

Ar ddydd Llun, 4.5.20, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams ganllawiau i rieni a gofalwyr er mwyn eich helpu i gefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg tra yn y cartref.

Am wybodaeth bellach parthed y canllawiau, gweler y ddogfennaeth isod a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 4.5.2020.

https://llyw.cymru/cefnogi-eich-plant-i-ddefnyddior-gymraeg-gartref

Mae gwybodaeth bellach a dolenni i syniadau am weithgareddau i blant a phobl ifanc eu gwneud yn Gymraeg hefyd ar **Hwb**.

£3m o gyllid ychwanegol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u 'hallgáu o'r byd digidol

Diolch i bawb sydd wedi cysylltu drwy e-bost os ydych yn

- deulu sydd heb ddyfais addas er mwyn cael mynediad i ddysgu o bell
- deulu sydd yn rhannu dyfais rhwng 4/5 yn y teulu
- deulu sydd heb unrhyw fynediad at wi-fi

Rydym yn parhau i gydweithio â'r Awdurdod Addysg. Byddwn mewn cysylltiad uniongyrchol gyda chi yn ystod yr wythnos nesaf gyda manylion pellach.

Dysgu o Bell – Hyfforddiant Staff

Fel ysgol, rydym yn awyddus i ddatblygu ein darpariaeth dysgu o bell mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol. O ganlyniad, yr wythnos hon, mae staff wedi derbyn hyfforddiant pellach a'r "teams" a rhaglenni eraill, er mwyn datblygu ein darpariaeth dysgu o bell a chyfathrebu gyda'n dysgwyr.

Holiadur Chweched Dosbarth

Mae barn ein dysgwyr yn bwysig i ni. Rydym wedi rhannu holiadur ar lein drwy "Show My Homework" ar gyfer dysgwyr blwyddyn 11 presennol yn holi eu barn am y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ysgol. Diolchwn rhagblaen am gyd-weithrediad y dysgwyr i gwblhau'r holiadur erbyn 15.5.20

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Opsiynau TGAU ar gyfer dysgwyr Bl 9

Yn dilyn ymgynghoriad opsiynau TGAU i ddysgwyr blwyddyn 9 presennol, rydym wedi gosod y pynciau TGAU mewn blociau terfynol. Rydym wedi gwneud ein gorau glas i blesio y mwyafrif o ddysgwyr, er hyn, rydym yn ymwybodol na fydd y blociau yn plesio dewis cyntaf rhai dysgwyr. Mae croeso i chi gysylltu a'r ysgol drwy e-bost ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk
os hoffech drafod y dewisiadau.

Er mwyn casglu'r dewisiadau terfynol, bydd tasg yn cael ei osod ar 'Show My Homework' ar ddydd Llun 11.5.20 i gadarnhau'r dewisiadau terfynol. Diolchwn rhagblaen am gyd-weithrediad dysgwyr Blwyddyn 9 i gwblhau'r dasg erbyn dydd Gwener, 15.5.20

Opsiwn 1 ***Option 1***	**Opsiwn 2** ***Option 2***	**Opsiwn 3** ***Option 3***
Addysg Gorfforol *Physical Education*	Amaethyddiaeth *Agriculture*	Bwyd a Maeth *Food and Nutrition*
Astudiaethau Crefyddol Religious Studies	Busnes *Business*	Cerddoriaeth *Music*
Celf *Art*	Drama *Drama*	Daearyddiaeth *Geography*
Ffrangeg *French*	*Dylunio Cynnyrch Product Design*	Gwaith Gof *Blacksmithing*
TGCH *ICT*	Gwyddoniaeth Triphlyg *Triple Science*	Hanes *History*
	Iechyd a Gofal *Health and Social*	

Penodiadau Staff

Carwn eich hysbysu, yn dilyn cyfweliadau ddoe, ein bod wedi penodi Mr Sion Jenkins a Ms Sara James i'r gyfadran Gymraeg a Mr Samuel Lewis i'r gyfadran Wyddoniaeth.

Llongyfarchiadau gwresog iddynt. Edrychwn ymlaen at eu croesawi'n ffurfiol i'n tîm ar gychwyn y flwyddyn academaidd nesaf.

Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf dydd Gwener nesaf er mwyn eich hysbysu a'ch diweddaru o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'ebostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Gan ei fod yn Ŵyl y Banc, Calan Mai yfory (8.5.20), ni ddisgwylir i ddysgwyr gwblhau tasgau ysgol yfory.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Mawr obeithiaf y cewch benwythnos hir a dedwydd gyda'ch teulu yn gwneud gweithgareddau amrywiol ac yn mwynhau cwmni eich gilydd.

Cadwch yn ddiogel a chymerwch ofal.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

7 May, 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils,

On behalf of all school staff, I sincerely hope that you and your families, as members of our School community, continue to keep healthy and safe during these exceptional circumstances.

This week, I would like to inform you of the following:

Situation for schools will not change on June 1st

Today, Welsh Government Education Minister Kirsty Willliams announced the situation for schools in Wales will not change on June 1st. In a message posted on her Twitter account, Kirsty Williams said:

"As you'll know, there is a lot of speculation about what may or may not be announced regarding schools in England this weekend.

"As I have said before, you will always hear directly from me on the decisions we make in Wales for our pupils, parents and school staff.

"The situation for schools in Wales will not change on 1 June. You have my guarantee that we will give everyone time to plan ahead of a next phase starting.

"Any decision to increase the operation of schools will be communicated well in advance. We are working closely with local authorities to ensure that schools are supported in this preparation work.

"In the meantime, critical workers and those who need to use schools or hubs for your children should continue to do so.

"We will continue to be guided by the very latest scientific advice and will only look to have more pupils and staff in schools when it is safe to do so. We will, of course, need to ensure that social distancing requirements can be adhered to. "

For further information regarding the Government's guidance, please see below press release published by the Welsh Government on 7.5.2020

https://gov.wales/situation-schools-will-not-change-june-1st-education-minister-says

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Supporting your children to use the Welsh language at home

On Monday, 4.5.20**,** Welsh Government Education Minister Kirsty Williams announced guidance to parents and carers to support their children to use the Welsh language at home. For further information regarding the Government's guidance, please see below documentation published by the Welsh Government on 4.5.2020

https://gov.wales/supporting-your-children-use-welsh-language-home?_ga=2.118408970.2064283129.1588795365-1703397649.1550178361

You can also find further information and links to organisations providing activities for children and young people in Welsh on **Hwb**.

Extra £3 million to support "digitally excluded" learners

Thank you to everyone who contacted me if you are

- a family without a suitable device to access distance learning
- a family which shares a device between 4/5 in the family
- a family with no wi-fi access

We continue to work in partnership with the Local Authority. We will be in contact with you next week with further information.

Distance Learning – Staff Training

As a school it is our intention to develop our distance learning provision in partnership with the Local Authority. As a result, this week, staff have received further training on "teams" and other programmes, in order to develop our provision of distance learning and communicate with learners.

Sixth Form Questionnaire

Our learners' views are important to us. We have shared an online questionnaire via "Show My Homework" with our current year 11, asking their views on Post-16 provision in school. We thank learners in advance for their co-operation in completing the questionnaire by Friday,15.5.20.

Year 9 GCSE Options

Following our consultation with our current year 9 learners, we have set the GCSE subjects into their final blocks. We have done our utmost best to try and please the majority of learners, however, we are aware that the option blocks will not meet the first choice of some learners. You are welcome to contact the school via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk
if you need to discuss these options.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

In order to collect individual final option choices, a task will be set on "Show My Homework" on Monday 11.5.20 to confirm final option choices. We thank Year 9 learners in advance for their co-operation in confirming their choices by Friday,15.5.20.

Opsiwn 1 ***Option 1***	**Opsiwn 2** ***Option 2***	**Opsiwn 3** ***Option 3***
Addysg Gorfforol *Physical Education*	Amaethyddiaeth *Agriculture*	Bwyd a Maeth *Food and Nutrition*
Astudiaethau Crefyddol Religious Studies	Busnes *Business*	Cerddoriaeth *Music*
Celf *Art*	Drama *Drama*	Daearyddiaeth *Geography*
Ffrangeg *French*	*Dylunio Cynnyrch Product Design*	Gwaith Gof *Blacksmithing*
TGCH *ICT*	Gwyddoniaeth Triphlyg *Triple Science*	Hanes *History*
	Iechyd a Gofal *Health and Social*	

Staff Appointments

Following yesterday's interviews, I would like to inform you that Mr Sion Jenkins and Ms Sara James have both been appointed to the Welsh faculty and Mr Samuel Lewis has been appointed to the Science faculty.

Congratulations to them all. We look forward to welcoming them formally as members of our team at the beginning of the new academic year.

Next Friday, you will receive correspondence from me to inform you of the latest news and developments. You are also welcome to e-mail me via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

As it is May Day Bank Holiday tomorrow (8.5.20), we do not expect learners to complete school tasks.

I hope that you will have an enjoyable long weekend with your family, taking part in various activites and enjoying each other's company.

Look after yourselves and keep safe.

Sincerely,

Rhian Morgan
Acting Headteacher

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk